# TAG CYNLLUN MARCIO

**HAF 2016**

**CYMRAEG IAITH GYNTAF – CY6**
**1376/51**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2016. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYMRAEG IAITH GYNTAF**

**CYNLLUN MARCIO CY6**

**Haf 2016**

## Adran A – Gwerthfawrogi Barddoniaeth

## Cynllun Marcio:

- Paratoi i ymuno â'r brotest yn erbyn y Praw Moddion y mae Bronwen, ei gŵr, Idris wedi penderfynu peidio ag ymuno.

- Maent yn byw mewn cegin o dan ddaear a'r pantri yw ei hystafell wely. Gan nad oeddent wedi derbyn ceiniog o gyflog ers iddynt briodi maent yn byw mewn tlodi. Codir chwe swllt yr wythnos o rent arnynt am gael byw yno.

- Prin iawn yw geiriau Bronwen wrth iddi adael ei chartref, *'Wel 'rw i'n mynd te.'* Ond mae Idris yn bwrw ei lid ac mae'r **ddeialog dafodieithol** yn llawn **coegni** sydd yn cyfleu ei ddirmyg at y gwleidyddion yn y gosodiad mai '*ffrôd yw'r blydi lot ohonyn nhw.'* Sylwer mai **tafodiaith y de** a ddefnyddir yn y ddeialog '*bradu dy amser', 'dy gered di,' 'dim iws i ti,' a 'pen tost.'* Trwy ddefnyddio tafodiaith fe ddown yn fwy ymwybodol o leoliad a chyd-destun y darn.

- Mae Idris yn amau'n fawr faint o les a wnaiff Bronwen wrth fynd ar y brotest a chaiff ei gyflwyno drwy **ystum**, *'Rhoes ail sgrytiad iddo'i hun, troes ar ei sawdl ac aeth heibio i'r cyrten i'r ystafell nesaf, a gorweddodd ar y gwely'.* Mae'n amlwg ei fod yn colli pwysau a **defnyddir dillad** i awgrymu tlodi – *'Tynhaodd felt y trywsus llwyd a oedd yn rhy fawr iddo ac a ddisgynnai dros ei esgidiau.'* Mae fel petai wedi derbyn yr anochel ynghylch eu tynged a'i obeithion am eu bywydau, ac wedi colli ffydd mewn bywyd a dynolryw.

- Ceir **brawddeg fer** sy'n cyfleu ystyriaeth Bronwen am eiliad i beidio â mynd allan i brotestio, *'Safodd Bronwen yn edrych arno.*' Ond roedd treulio prynhawn yn yr ystafell dywyll ddi-ffenestr yng nghwmni gŵr a oedd wedi diflasu ar fywyd yn ddigon o sbardun iddi fynd allan. Cyflëir y ffaith fod Idris wedi colli gobaith ac wedi suro. Mae'r darlun ohono yn gorwedd ar ei wely a'i gefn wedi ei droi tuag at y byd mawr oddi allan yn mynegi ei ddiflastod yn gryno. Defnyddir **osgo a chyffelybiaeth** yma i awgrymu tor calon, chwerwder, diflastod a digalondid; '*Gorweddai'n dorch fel cath ar ben tas wair ac iddi hi yr oedd y tro yn ei gefn yn fynegiant o'i holl surni a'i chwerwedd yn erbyn bywyd i gyd.'* Yr **eironi** sydd fwyaf trawiadol yma. Mae'r **trosiad** o gartre'r ddau *'y twll hwn'* hefyd yn effeithiol. Mae ei sŵn yn galed, ei gysylltiadau yn annymunol ac wrth gwrs mae cartref y ddau dan ddaear sy'n ategu sefyllfa'r ddau o gael eu caethiwo yn eu tlodi.

- Ceir **adleisio llinellau** yn y darn wrth ailadrodd *'troes ar ei sawdl'* a *'troes hithau ar ei sawdl'* gyda'r ddau yn troi i gyfeiriadau gwahanol a phwrpas gwahanol. Idris yn troi i bwdu gan ddiflasu ar fywyd a Bronwen yn troi er mwyn gweld llygedyn o obaith.

- Wedi iddi ymbellhau oddi wrth ei chartref a'i gŵr daeth i deimlo'n well. Roeddent yn amlwg yn byw mewn ardal dlawd gan fod tai mwy a glanach wedi iddynt gyrraedd y ffordd fawr. Defnyddir **disgrifiadau** i gyfleu'r '*tomenni lludw'* a'r '*annibendod*'. Eto mae Bronwen yn llawn hyder yn yr hyn y gall y Ffrynt Unedig ei gyflawni er budd ei pherthynas.



© WJEC CBAC Cyf.

- Roedd y ffaith ei bod yn ddiwrnod cynnes yn nechrau Hydref yn gymorth i godi ei chalon ac roedd tyrfa dda wedi dod ynghyd. Edmygu'r olygfa hyfryd yn yr haul a wna Bronwen ac mae **natur** ymddengys yn galluogi iddi freuddwydio a dychmygu. Mae'r **dechneg o restru'n** ategu ei chynnwrf a llif di-dor ei meddwl wrth freuddwydio am ei dyfodol hi ac Idris; breuddwydion ymarferol am waith, cyflog, dillad, gwell tŷ. Mewn **gwrthgyferbyniad** llwyr sylwir ar y disgrifiad o'u cartref o'i gymharu â disgrifiad o'r cwm yn yr haul. Prin yw'r **ansoddeiriau** ac fe'u defnyddir yn y darn er mwyn disgrifio'r diffyg moethusrwydd - '*gadair galed'* ac *'yn y twll du di-ffenestr'*; dyma gyfleu pa mor barhaol yw'r anobaith. Mae'r **ansoddeiriau cadarnhaol** megis '*glanach', 'cynnes', 'tawel'* yn wrthgyferbyniad llwyr. **Cyferbynnir** goleuni a thywyllwch a llwyddir i adlewyrchu'r gwrthdaro rhwng gobaith ac anobaith.

- Defnyddir **cyffelybiaethau** eto i gyfleu gogoniant y cwm a hefyd obeithion Bronwen wrth fynd ar y brotest *'y rhesi tai fel catrodau o filwyr'* a'r *'ffenestri yng ngoleuni'r haul yn edrych fel botymau gloyw.'* Er mai disgrifiad digon llwm a geir mewn gwirionedd o'r cwm sy'n eu caethiwo, mae yma fodd bynnag ryw ymdeimlad â chynefin sy'n ei sbarduno 'mlaen.'

- Wrth oedi i edrych ar y ddau gwm awgrymir gan yr awdur mai yno y safodd hynafiaid Bronwen ddeng mlynedd a thrigain ynghynt yn dilyn taith mewn cert o Sir Gaerfyrddin yn chwilio am '*dir yr addewid'*. **Ailadroddir patrwm negyddol** y frawddeg *'Ni wyddai ….'* i awgrymu nad yw Bronwen yn ymwybodol o obeithion ei hynafiaid ond yr unig beth y mae'n ei wybod i sicrwydd yw bod *'ei rhieni hi ei hun wedi cael amser gwell nag a gâi hi'n awr*.'

- Caiff gobaith a ffydd Bronwen ei gyfleu - rhydd ei gobaith yn llwyr ar ganlyniadau'r orymdaith. Nid dianc oddi wrth y gelyn haniaethol - tlodi - a wna ond dewis gwneud rhywbeth ymarferol i geisio newid y sefyllfa oherwydd *'Ni allai pethau fod yn waeth na hyn.'*

- Wedi i Bronwen gyrraedd y man cyfarfod defnyddir y **synnwyr gweld a chlywed** mewn **cyffelybiaeth** i ddisgrifio'r cae *'fel môr yn symud, a'r siarad fel ei su undonog, ond bod chwerthin yr ieuainc diofal yn torri weithiau ar annerch y dorf.'*

- Wedi gwrando ychydig, disgrifir yr **emosiwn** a'r **awyrgylch** yn bennaf, *'Aeth ias i lawr cefn Bronwen, yr ias honno sy'n fynegiant o rywbeth na ellir ei ddiffinio, pan fo dyn yn gweld torf fawr yn crogi wrth eiriau un gŵr.'* Ceir **delwedd** effeithiol, *'Yfai pawb ei eiriau.'*

- Defnyddir **berfau cryno** i ddarlunio'r orymdaith yn cychwyn a sylwa Bronwen ar ei chyd gerddwyr. Sylweddola fod tlodi yn gyffredin rhyngddynt.

- Câi bleser wrth weld tyrfa fawr unol yn milwrio yn erbyn y drefn ac yn ceisio gwneud rhywbeth ymarferol '*yn erbyn y peth anweledig hwnnw.'* Ceir **cynildeb** yma ac **awgrymir** naïfrwydd Bronwen a'i hanwybodaeth fel petai'n ysglyfaeth i dwyll gwleidyddion, *'Credai y caent yr hyn a geisient, a rhagor. Fe agorid yr hen byllau yma eto, ac fe gâi hithau dŷ fel ei mam o leiaf.'*

- Yn raddol mae blinder ac anghysur ei hesgidiau ynghyd â'r angen am fwyd yn lladd brwdfrydedd Bronwen. Defnyddir yr *'haul yn isel'* a'r oerfel i gyfleu ei theimladau. Ceir **cynildeb o ran y dweud** wrth ddefnyddio **cyffelybiaeth a'r cyfeiriad at y synnwyr clywed** eto. *'Fel y lleihâi'r siarad, âi sŵn cerdded y dorf fel sŵn defaid yn cerdded ar ffordd galed.'*



© WJEC CBAC Cyf.

- Yr hyn sy'n dadrithio Bronwen yw sylwi ar wraig â chot ffwr gostus amdani a phan ddeallai wrth glywed edliw y wraig nesaf ati mai gwraig yr Aelod Seneddol ydyw, mae'r ffaith honno a'r ymdeimlad o ragrith sydd ynghlwm wrth hynny'n profi'n ergyd galed iddi fel yr awgryma'r **gyffelybiaeth** a *'disgynnodd ei chalon fel pendil cloc pan dorro ei lein.'* Try'r brotest yn sur a dibwrpas i Bronwen ac nid oes dim amdani ond gadael.

**Synoptig**

Gellir cydio mewn agweddau o ran themâu megis:

- **Cwyno:** cwyno yn erbyn y Llywodraeth oherwydd tlodi a diweithdra yr oedd Bronwen a pharheir i wneud hynny heddiw
- **Gobaith / anobaith:** gobaith Bronwen a hithau'n gwrthod ildio i anobaith a surni
- **Balchder**
- **Tlodi yn arwain at densiynau rhwng perthynas**
- **Natur Ddynol**
- **Dadrithiad**
- **Dewrder / brwydro**
- **System gyfalafol**
- **Rhagrith**
- **Safbwyntiau a daliadau**
- **Caethiwed cymdeithas**



© WJEC CBAC Cyf.

| AA2 | AA2 - ystod y marciau (40) | AA3 | AA3 - ystod y marciau (20) |
|---|---|---|---|
| • crynhoi ffeithiau cymhleth a pherthnasol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n strwythuredig<br>• arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o'r cysyniadau<br>• dadansoddi a dehongli'n dreiddgar<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynus<br>• cyflwyno tystiolaeth drwy gyfeirio at rannau penodol o'r testun a defnyddio dyfyniadau'n effeithiol<br>• dadansoddi arddull a ffurf/mesur yn dreiddgar<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi llenyddiaeth yn ddeallus<br>• croesgyfeirio'n ddeallus rhwng amrywiol destunau wrth ymdrin â gwahanol agweddau ar y thema/themâu a thechnegau arddull | 32-40<br><br>*(Synoptig 8-10)* | • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn rymus, yn glir a chroyw<br>• rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn sensitif<br>• saernïo'r gwaith yn fwriadus er mwyn cyfleu cymhlethdod ac amlochredd y pwnc<br>• arddangos cyfoeth o adnoddau iaith<br>• meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen | 16-20 |
| • crynhoi ffeithiau perthnasol yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynus<br>• arddangos dealltwriaeth sicr o'r cysyniadau<br>• dadansoddi a dehongli'n dda<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus<br>• cyfeirio at rannau perthnasol o'r testun a defnyddio dyfyniadau yn addas a phwrpasol<br>• dadansoddi arddull a ffurf/mesur yn addas a phwrpasol<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi llenyddiaeth yn effeithiol<br>• croesgyfeirio effeithiol rhwng amrywiol destunau wrth ymdrin â gwahanol agweddau ar y thema/themâu a thechnegau arddull | 26-31<br><br>*(Synoptig -7)* | • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn glir a chroyw<br>• rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• saernïo'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc<br>• arddangos adnoddau iaith da<br>• arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen | 13-15 |
| • crynhoi'r ffeithiau perthnasol yn effeithiol a'u cyflwyno'n gywir<br>• arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau<br>• dadansoddi ac ymresymu'n foddhaol<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus<br>• cyfeirio weithiau at rannau perthnasol o'r testun a defnyddio dyfyniadau addas<br>• dadansoddi arddull a ffurf/mesur yn foddhaol<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi llenyddiaeth yn gyson<br>• croesgyfeirio'n synhwyrol rhwng gwahanol destunau wrth ymdrin â gwahanol agweddau ar y thema/themâu a rhai technegau arddull | 20-25<br><br>*(Synoptig 5-6)* | • mynegi syniadau a dadleuon lled gymhleth yn glir<br>• rhoi sylw boddhaol i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu gwahanol agweddau ar y pwnc<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen | 10-12 |



© WJEC CBAC Cyf.

| | | | |
|---|---|---|---|
| • crynhoi rhai ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir<br>• arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau<br>• dadansoddi ac ymresymu'n lled foddhaol<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau<br>• defnyddio ambell gyfeiriad penodol at y testun a defnyddio rhai dyfyniadau addas<br>• trafod agweddau ar arddull a ffurf/mesur<br>• defnyddio rhai termau gwerthfawrogi llenyddiaeth<br>• ychydig o groesgyfeirio rhwng gwahanol destunau wrth ymdrin â gwahanol agweddau ar y thema/themâu ac ambell dechneg arddull | 14-19<br><br>*(Synoptig -4)* | • defnyddio iaith yn briodol i fynegi syniadau a dadleuon<br>• dangos ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen | 7-9 |
| • cyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• arddangos dealltwriaeth o ambell gysyniad<br>• ymresymu a chyfeirio at rai elfennau penodol<br>• datblygu ac ehangu ar rai syniadau<br>• defnyddio ambell gyfeiriad penodol at y testun ac ambell ddyfyniad<br>• trafod rhai agweddau ar arddull a ffurf/mesur<br>• defnyddio ambell derm gwerthfawrogi llenyddiaeth<br>• creu ambell gymhariaeth rhwng gwahanol destunau | 8-13<br><br>*(Synoptig 2-3)* | • defnyddio iaith i fynegi syniadau a dadleuon uniongyrchol yn glir ac yn effeithiol<br>• dangos peth ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen | 4-6 |
| • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig. | 0-7<br>*(Synoptig -1)* | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig. | 0-3 |

***Wrth ddyfarnu marciau i AA3 sylwer bod angen ystyried y ddau/tri phwynt bwled cyntaf yn ogystal â'r ddau bwynt bwled olaf. Rhaid i'r marc iaith fod o fewn un radd i'r marc cynnwys.**

**Rhoddir canllaw ar gyfer dyfarnu marciau am yr elfen synoptig o fewn amcan asesu - Ymateb i destun (AA2) mewn print italig yn y golofn farciau.**



© WJEC CBAC Cyf.

**Cwestiwn 2 – Defnyddio'r Iaith - 50 marc**

**Llunio darn o ryddiaith personol a dychmygus ar bwnc arbennig.**

Gan mai o dan adran defnyddio'r iaith y daw'r cwestiwn hwn, dylid rhoi lle blaenllaw i ansawdd, mynegiant ac arddull wrth asesu.

| **AA3 - ysgrifennu** | **AA3 - ystod marciau** |
|---|---|
| • cyflwyno gwaith llawn dychymyg a gwreiddioldeb<br>• dewis a dethol yn feistrolgar yr elfennau arwyddocaol yn y digwydd a'r profiad<br>• saernïo'r gwaith yn fwriadus gan sicrhau undod i'r gwaith<br>• arddangos cyfoeth o adnoddau iaith<br>• meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen | 40-50 |
| • cyflwyno gwaith llawn dychymyg a pheth gwreiddioldeb<br>• dangos ôl dewis a dethol yr elfennau arwyddocaol yn y digwydd a'r profiad<br>• saernïo'r gwaith yn ofalus gan sicrhau undod i'r gwaith<br>• arddangos adnoddau iaith da<br>• arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen | 32-39 |
| • cyflwyno gwaith dychmygus a diddorol<br>• llwyddo i ddewis a dethol y perthnasol yn eithaf da<br>• cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn ceisio sicrhau undod i'r gwaith<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen | 25-31 |
| • creu darluniau personol diddorol a digwyddiadau cyffrous<br>• llwyddo i ddewis a dethol y perthnasol ar y cyfan<br>• arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen | 17-24 |
| • creu disgrifiadau personol ac ambell ddigwyddiad diddorol<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen | 10-16 |
| • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig | 0-9 |



© WJEC CBAC Cyf.

**Cwestiwn 3 – Tasg cyfieithu – 50 marc**

**Rhai nodiadau ar y cyfieithu**

Rhennir y darn yn ddeg adran hylaw a dosberthir 4 marc i bob adran.
Tynnir ½ marc am bob gwall hyd at 5 gwall.
6 gwall neu fwy – rhaid penderfynu ar ansawdd y frawddeg i benderfynu a ddyfernir 1 marc / ½ marc neu 0.

Ar ôl marcio drwy ddilyn y cynllun hwn bydd gennych gyfanswm allan o 40 marc.

Dylech gyfeirio wedyn yn ôl at y bandiau marciau er mwyn rhoi marc argraff allan o 10 marc.

Dylech sicrhau bod y marc argraff yn adlewyrchu gofynion bandiau marciau penodol. Mae hyn yn gyfle i wobrwyo defnyddio ymadroddion Cymraeg a chyfoethog yn feistrolgar, naturioldeb o ran llif y mynegiant a chyfieithu isgymalau yn effeithiol.

Cosbir cyfieithu priod-ddulliau a chystrawennau Saesneg.  Bydd angen i ffurfiau'r brawddegau fod yn gwbl Gymraeg. Derbynnir ffurfiau cryno a chwmpasog berfau.

**Cyfanswm allan o 40 marc + marc argraff allan o 10 = cyfanswm am y cwestiwn.**

| **AA3 allan o 40** | **allan o 10** |
|---|---|
| **32-40** | **9-10** |
| **26-31** | **7-8** |
| **20-25** | **5-6** |
| **14-19** | **3-4** |
| **8-13** | **1-2** |
| **0-7** | **0** |



© WJEC CBAC Cyf.

| AA3 - ysgrifennu | AA3 - ystod marciau |
|---|---|
| • cyfieithu'n feistrolgar ddarn ffeithiol yn fanwl gywir mewn iaith ffurfiol / cyfieithu darn llenyddol ei naws gan greu naws, awyrgylch ac arddull y gwreiddiol yn feistrolgar<br>• arddangos cyfoeth o adnoddau iaith<br>• arddangos gafael sicr ar ramadeg a chystrawen | 40-50 |
| • cyfieithu'n briodol ddarn ffeithiol yn fanwl gywir mewn iaith ffurfiol / cyfieithu darn llenyddol ei naws gan greu naws, awyrgylch ac arddull y gwreiddiol yn briodol<br>• arddangos adnoddau iaith da<br>• arddangos gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen | 32-39 |
| • cyfieithu'n effeithiol ar y cyfan ddarn ffeithiol yn gywir mewn iaith ffurfiol / cyfieithu darn llenyddol ei naws gan greu naws, awyrgylch ac arddull y gwreiddiol yn effeithiol ar y cyfan<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen | 25-31 |
| • cyfieithu'n foddhaol ar y cyfan ddarn ffeithiol yn gywir mewn iaith ffurfiol / cyfieithu darn llenyddol ei naws gan greu naws, awyrgylch ac arddull y gwreiddiol yn foddhaol ar y cyfan<br>• arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen | 17-24 |
| • cyfieithu'n foddhaol rannau o ddarn ffeithiol yn lled gywir mewn iaith ffurfiol / cyfieithu darn llenyddol ei naws gan greu naws, awyrgylch ac arddull y gwreiddiol yn foddhaol mewn rhannau ohono<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen | 10-16 |
| • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol yn unig | 0-9 |



© WJEC CBAC Cyf.